# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Sybil Crouch | Adran Etholiadol: | Castell |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Aelod y Cabinet dros Gynaladwyedd |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Ynghyd â chynghorwyr eraill Ward y Castell, euthum i'r cymorthfeydd wythnosol a gynhaliwyd ar fore Sadwrn ym Mrynmelin, y Marina, Sandfields a Dyfaty. Yn ychwanegol, euthum i gyfarfodydd preswylwyr a PACT Brynmelin/Waun Wen, Mount Pleasant, y Marina a Sandfields.

Ymatebais ac ymdriniais â nifer o faterion preswylwyr, gan gynnwys cwynion am wastraff, parcio, glanhau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trafnidiaeth, priffyrdd etc.

Roeddwn, ac rwy'n parhau i fod, yn llywodraethwr yn Ysgol Heol Teras. Euthum i gyfarfodydd y swyddfa dai ranbarthol i glywed am faterion tenantiaid.

Gyda chydweithwyr ward, roeddem yn llwyddiannus wrth gael offer chwarae newydd ar gyfer Parc Bryn y Don a sefydlu'r grŵp Cyfeillion Parc Bryn y Don. Roeddem yn rhan o drefnu a chymryd rhan mewn plannu bylbiau, sesiwn codi sbwriel a gweithgareddau eraill.

Trefnais i gât gael ei gosod ym Mharc Dyfaty sy'n galluogi disgyblion Ysgol Crug Las i fod yn ddiogelach wrth ddefnyddio Parc Dyfaty.

Roeddwn yn ymddiddori, ac yn parhau i ymddiddori, yng Ngardd Gymunedol Llysiau'r Vetch ac wedi mynd i nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys ymweliadau gan amrywiaeth o sefydliadau a gweinidogion llywodraeth.

Roeddwn yn rhan o'r cyfarfodydd a'r trafodaethau am Ardal Adnewyddu Cymdogaeth Sandfields – cynllun rydym yn gobeithio y caiff ei gyflwyno o 2014.

Rwyf wedi ymddiddori'n fawr mewn materion cynllunio sy'n gysylltiedig â'm ward.

Rwyf wedi ymddiddori'n arbennig ym materion Theatr y Palas a cheisio annog y perchnogion i fynd i'r afael ag adfeiliad difrifol yr adeilad. Mae cynnydd yn cael ei wneud gyda chytundeb newydd ei lofnodi rhwng DASA a'r perchnogion.

Euthum i nifer mawr o gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf – gan fod Ward y Castell mewn 2 ardal clwstwr (De – Sandfields a'r Gogledd-orllewin – Waun Wen/Brynmelin). Rwyf wedi cyfarfod â'r heddlu a PCSOs i drafod materion trwyddedu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 7 | / | 12 | 58 | % |
| Y Cabinet | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Thaliadau Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Y cyngor | 11 | / | 15 | 73 | % |
| Pwyllgor Rheroli a Rheolaeth Datblygu | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 1 | / | 3 | 33 | % |
| CYFFREDINOL | 40 | / | 63 | 63 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Mae cylch gwaith y portffolio hwn yn eang iawn, gan gwmpasu 3 maes cynaladwyedd – economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Er mwyn cyflwyno'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn 2014 (Bil Cenedlaethau'r Dyfodol bellach), mae angen i bob corff cyhoeddus wneud cynaladwyedd yn egwyddor trefnu ganolog. Mae DASA yn awdurdod lleol arweiniol (yn 'fabwysiadwr cynnar') yng Nghymru ar gyfer datblygu cynaliadwy ac fel unig Aelod y Cabinet yng Nghymru â'r portffolio hwn, rwyf wedi mynd i gyfarfodydd niferus a rhoi cyflwyniadau i awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru ar ein harfer a sut rydym yn datblygu polisïau yn Abertawe.

Rwyf wedi arwain ar:

- Ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy yn y ddinas: (Cynllun Menter Ynni Adnewyddadwy Cymunedol a Gwresogi Ardal)
- Datblygu mentrau newydd am dyfu cymunedol;
- Materion sy'n effeithio ar gydlyniant cymunedol a diogelwch (gweler isod)
- Bod yn ddinas gynaliadwy o ran bwyd
- Annog y cyngor i ymuno â Chynllun Hinsawdd Leol yr CLIL
- Datblygu Prif Gynllun newydd ar gyfer safle Llysiau'r Vetch fel model datblygu cynaliadwy

Roeddwn ac rwyf o hyd yn Hyrwyddwr Bioamrywiaeth ac rwyf wedi hyrwyddo arfer da megis rheoli torri gwarrau etc. i hybu peillwyr.

Yn ychwanegol at bwyllgorau'r cyngor a restrir uchod, rwyf wedi cymryd rhan yn y pwyllgorau a grwpiau canlynol:
Bwrdd Rhaglen Fframwaith Datblygu Cynaliadwy – Cadeirydd
Cynllun Tyfu'n Lleol - Cadeirydd
Baner Borffor - Grŵp Celfyddydau a Diwylliant - Cadeirydd
Abertawe Carbon Isel
Grŵp Tasg a Gorffen ar Gyfleusterau Camddefnyddio Cyffuriau - Cadeirydd
Pwyllgor Celf Gyhoeddus y Rhodfa
Bwrdd Dinasoedd Iach
Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe

Cyfarfodydd â Wheelwrights ar gynllunio llwybrau beicio a blaenoriaethau Partneriaeth Bioamrywiaeth

Cymerais ran hefyd mewn cyfarfodydd manwl i drafod Cyllideb 2014/15 - Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas ar gyfer y Dyfodol.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cynullais grŵp tasg a gorffen i fynd i'r afael â materion a oedd yn deillio o glystyru gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng nghanol y ddinas ac i ddatblygu arfer gorau am leoliad a diogelwch cymunedol a chysylltu. Aelodau'r grŵp oedd yr asiantaethau camddefnyddio sylweddau, yr heddlu, GIG, PABM a DASA ac mae'r grŵp yn parhau.

Hefyd, cadeiriais grŵp tasg a gorffen swyddogion/cynghorwyr yn casglu tystiolaeth ar effaith dwysedd HMO ar gynaladwyedd cymunedol, Strydlun ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cyflwynwyd y dystiolaeth i Lywodraeth Cymru i geisio newid yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd fel y bydai angen caniatâd cynllunio ar gyfer pob HMO, beth bynnag yw ei faint, mewn ardaloedd dwysedd uchel.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

14/10/2013 - Cyn-benderfynu
Dyddiadau amrywiol – Academi Arweinyddiaeth

Mae gennyf brofiad sylweddol yn y sector diwylliannol ac rwyf wedi cyfrannu i drafodaethau a chamau gweithredu ynglŷn â chynnig i fod yn Ddinas Diwylliant y DU a chynnig Syniadau, Pobl, Lleoedd i CCC.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cefais glun newydd ym mis Gorffennaf 2013 ac roeddwn yn absennol o fusnes y cyngor am 8 wythnos.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £31,900 y flwyddyn

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29.05.14 |